

Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Gorffennaf '17

Ysgol Nant y Groes

Gwaith i'w orffen yn Ysgol Nant y Groes dros yr haf

Mae'r gwaith adeiladu, a wneir gan K&C Construction yn Ysgol Nant y Groes, sydd wedi cynnwys adeilad cyswllt gwydr un llawr rhwng y ddau adeilad oedd yn bodoli, bron a gorffen.



Mae'r prosiect sydd wedi cyfuno Ysgol Pendorlan ac Ysgol Glan y Môr hefyd wedi cynnwys gwaith ailfodelu ac adnewyddu i'r adeiladau ysgol oedd yn bodoli yn cynnwys adeiladu lifft llwyfan a shafft lifft newydd, addasiadau ac estyniadau i'r holl wasanaethau mewnol ac allanol yn cynnwys bwyler newydd ac addasiadau i ardaloedd caled a meddal ar y buarth a thu blaen yr ysgol.

Mae'r prosiect wedi caniatáu buddsoddiad mewn offer TG, offer buarth, a MUGA (ardal gemau aml-ddefnydd) 3G ar y safle (gweler y lluniau isod).

Bydd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud dros wyliau'r haf i adnewyddu'r to ar y safle iau, a disgwylir y bydd wedi ei gwblhau yn nhymer yr hydref.

